UN LLAIS CYMRU -

yn cynrychioli cynghorau cymuned a thref

Beth yw cynghorau cymuned a thref?

Un Llais Cymru
One Voice Wales

Mae 736 cyngor cymuned a thref yng Nghymru; maent yn gyrff corfforaethol ac yn awdurdodau lleol. Mae ganddynt lais grymus i gynrychioli pobl leol.

Beth mae'r cynghorau hyn yn ei wneud?
Cynghorau cymuned a thref yw'r rhan o lywodraeth leol sydd agosaf at y bobl. Maen nhw'n gwasanaethu'r ardal leiaf ac yn gyfrifol am y materion mwyaf lleol. Un cyfrifoldeb pwysig iawn yw y gall y cynghorau hyn godi "presept" – swm o arian a gesglir gyda threth y cyngor bob blwyddyn ar gyfer gwella cyfleusterau a gwasanaethau i bobl leol.

Yng Nghymru fe'u gelwir yn gynghorau cymuned, neu gynghorau tref os ydynt yn gwasanaethu ardal sy'n bennaf yn drefol. Yn Lloegr fe'u gelwir yn gynghorau plwyf. Yng Nghymru a Lloegr maent yn unedau llywodraeth leol etholedig y caiff eu gweithgareddau eu rheoli gan Ddeddfau Seneddol.

Mae gan gynghorau tref a chymuned nifer o gyfrifoldebau sylfaenol ar gyfer gwneud bywydau cymunedau lleol yn fwy cyfforddus, llawer ohonynt yn rhai sy'n aml yn cael eu cymryd yn ganiataol. Yn y bôn, mae'r grymoedd hyn yn perthyn i dri phrif gategori: cynrychioli'r holl etholwyr o fewn y gymuned, darparu gwasanaethau i ddiwallu anghenion lleol, a cheisio gwella ansawdd bywyd yn y gymuned.

Mae grymoedd unigol yn cynnwys darparu a gofalu am gynlluniau trafnidiaeth cymunedol, cynlluniau arafu traffig, prosiectau ieuenctid lleol, gweithgareddau twristiaeth, cyfleusterau hamdden, meysydd parcio, lawntiau pentrefol, tai bach, biniau sbwriel, goleuadau stryd, glanhau strydoedd, mynwentydd, rhandiroedd, cysgodfannau bws, tir comin, llecynnau agored, llwybrau cerdded, llwybrau ceffylau a chamau lleihau troseddu.

Mae cynghorau cymuned a thref hefyd yn gallu cynnig barn ar geisiadau cynllunio – maen nhw'n ymgynghoreion statudol (mae'n rhaid ymgynghori â nhw os ydynt yn dymuno hynny) a gellir eu cynrychioli mewn ymchwiliadau cyhoeddus.

Yn Rhannu Cyfrifoldeb, datganiad polisi Llywodraeth Cynulliad Cymru ar lywodraeth leol a gyhoeddwyd yn 2007, cyhoeddwyd y bwriad i ymestyn grym lles i gynghorau cymuned a thref. Mae hyn yn rhan o fenter y llywodraeth i adfywio democratiaeth leol a bydd yn galluogi'r sector i wneud mwy i wella sefyllfa gymdeithasol, economaidd ac amgylcheddol ardal.

Beth mae cynrychiolwyr etholedig yn ei wneud imi?
Mae cynghorwyr cymuned a thref yn cynrychioli'r bobl sy'n byw yn eu hardal leol ar y lefel sydd agosaf i'r gymuned. Pan mae penderfyniadau'n cael eu gwneud, maen nhw yno i siarad drosoch chi.

Un Llais Cymru, 24 Stryd y Coleg, RHYDAMAN, SA18 3AF
01269 595400 www.onevoicewales.org.uk